


Gwyrth Dal y Pysgod

Wedi i Iesu godi o'r bedd, fe aeth i weld y disgyblion y drydedd waith wrth Fôr Galilea. Gofynnodd Iesu am fwyd. Ond doedd dim pysgod gan y disgyblion am na wnaethon nhw ddal unrhyw bysgod. Felly fe wnaeth Iesu gyflawni gwyrth a chafodd y disgyblion ddigon o bysgod. Wedyn, fe sylweddolôn nhw pwy oedd E. Wedi cael brecwast, gofynnodd Iesu dair gwaith i Pedr a oedd yn ei garu (yr un nifer ag y gwnaeth Pedr wadu'r Iesu). Bob tro dywedodd Pedr "Ydw!" Fe wnaeth Iesu faddau i Pedr am wadu. Yna dywedodd Iesu wrth Pedr, "Gofala am fy nefaid," hynny yw gofalu am y rhai sy'n credu yn yr Iesu.



"Ond os gwnawn ni gyffesu ein pechodau, bydd e'n maddau i ni am ein pechodau ac yn ein glanhau ni oddi wrth bopeth drwg am ei fod e'n cadw ei air ac yn gwneud beth sy'n iawn." 1 Ioan 1:9

Beth oedd gan y disgyblion i'w fwyta i
frecwast? Cysylltwch y dotiau i gael yr
ateb.



Pam wnaeth Iesu
ofyn i Pedr a oedd
yn ei garu fe?



Gwers 27

Gwyrth Dal y Pysgod

Testun y Beibl: Ioan 21

Adnod allweddol: 1 Ioan 1:9

Pwrpas: Bydd y plant yn deall bod yr Iesu eisie maddau i ni pan fyddwn yn gwneud pethau drwg.

Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer eich grŵp o blant. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grŵp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ac yn y blaen.

I. Gwers

Cyn gweithio ar y dudalen liwio, ewch drwy hanes gwyrth dal y pysgod wedi i'r Arglwydd Iesu atgyfodi gyda'r plant, ac am y ffordd wnaeth yr Iesu faddau i Pedr yn Ioan 21.

Ar gyfer plant ieuengach:

Ewch drwy'r stori o Ioan 21 gyda'r plant. Eglurwch ofal yr Iesu am ei ddisgyblion a helpwch hwy i ddeall beth ddigwyddodd.

Ar gyfer plant hŷn:

1. Darllenwch Ioan 21:1-13.

Eglurwch ofal yr Arglwydd am ei ddisgyblion. Gellir tynnu sawl casgliad o'r darn hwn. Trafodwch y rhain gan ddefnyddio'r cwestiynau hyn:

Pam wnaeth yr Iesu ymddangos ger Môr Galilea?

– Roedd y disgyblion yn pysgota ond heb ddal unrhyw bysgod. Roedd ganddyn nhw broblem a daeth yr Iesu i'w helpu.

Pam gofyn i'r Iesu am fwyd?

– Am eu bod yn gwybod nad oedd ganddyn nhw unrhyw beth i'w fwyta. Roedd yr Iesu eisiau i'r disgyblion gyfaddef fod ganddyn nhw broblem.

Sut mae'r Iesu'n eu helpu?

– Mae'n cyflawni gwyrth, gan ddweud wrth y disgyblion am daflu eu rhwyd i ochr dde'r cwch. Felly y gwnaethon nhw a chafodd y broblem ei datrys.

Faint o bysgod gafodd eu dal?

– Lot o bysgod: 153 o bysgod mawr.

I ble mae'r Iesu'n eu gwahodd?

– I gael brecwast. Mae'r Iesu'n gofalu am y disgyblion.

Wnaeth y disgyblion adnabod yr Iesu?

– Do. Roedden nhw'n gwybod mai ef oedd yr Arglwydd.

2. Darllenwch Ioan 21:15-25.

Mae'r Iesu'n gofalu am Pedr. Trafodwch y testun hwn:

Siaradodd yr Iesu â Pedr oherwydd ei fod yn gwybod bod Pedr yn teimlo'n ddrwg iawn am wadu. Roedd yr Iesu'n gwybod bod Pedr wedi edifarhau a'i fod yn ei garu ef yn fawr. Dair gwaith yr holodd Iesu Pedr a oedd yn ei garu. Dair gwaith atebodd Pedr, "Ydw." Maddeuodd yr Iesu i Pedr gan roi iddo'r anrhydedd o weithio drosto. Dywedodd yr Iesu wrth Pedr, "Portha (gofala am) fy nefaid!" Dilynodd Pedr yr Iesu ar hyd ei fywyd a daeth yn apostol dewr.

II. Gweithgareddau

1. Adnod allweddol

a. Darllenwch yr adnod yn uchel.

"Ond os gwnawn ni gyffesu ein pechodau, bydd e'n maddau i ni am ein pechodau ac yn ein glanhau ni oddi wrth bopeth drwg am ei fod e'n cadw ei air ac yn gwneud beth sy'n iawn." 1 Ioan 1:9

b. Eglurwch yr adnod.

Beth fyddwch chi'n ei wneud â chôt fudr? Ei golchi! Ond cyn ei golchi, mae angen i ni wybod ei bod yn fudr. Ydi'r gôt yn gallu golchi'i hun? Na. Mae'n rhaid i ni ei golchi. Pan fyddwn yn pechu, mae'n heneidiau ni'n fudr. Allwn ni ddim glanhau'r budreddi (pechod) o'n heneidiau, ond mi all yr Iesu. Felly, i fod yn lân eto, mae angen i ni gyffesu ein pechod i'r Arglwydd. Yna bydd yn maddau i ni ac yn ein gwneud yn lân eto. (Cyfeiriwch at esiampl Pedr.)

c. Helpwch y plant i ddysgu'r adnod.

2. Adolygwch gwestiynau ar gyfer y plant:

- Pryd wnaeth yr Iesu ymddangos ger Môr Galilea?
- Pam wnaeth ef ymddangos i'r disgyblion?
- Pa wyrth gafodd ei chyflawni yno, ger Môr Galilea?
- Ydi'r Iesu'n gallu cyflawni gwyrthiau heddiw?
- Ydi'r Iesu'n gwybod ein hanghenion?
- Ydi e'n barod i'n helpu ni?
- Pam y siaradodd Iesu â Pedr?
- Pam wnaeth yr Iesu ofyn i Pedr a oedd yn ei garu?
- Pa genhadaeth gafodd Pedr?
- Pryd oedd y tro diwethaf i chi bechu? Beth wnaethoch chi?
- Beth wnaethoch chi er mwyn i'r Iesu faddau i chi?
- Sut da chi'n gwybod bod Iesu wedi maddau i chi?

III. Diweddglo:

Rydym ni i gyd yn pechu – dyna'r hyn y mae'r Beibl yn ei ddweud. Nid oes unrhyw un sydd ddim yn pechu. Ond, mae Duw eisiau maddau i ni. Y cwbl sy'n rhaid i ni wneud yw edifarhau am ein pechod, cyfaddef i Dduw. Rhaid i ni ddweud ein bod yn caru Duw a cheisio peidio â phechu eto. Mae'r Arglwydd yn maddau ein pechodau os gwnawn ni gyfaddef ac edifarhau, ac mae'n rhoi i ni'r dasg o'i wasanaethu ef. Mae Pedr yn enghraifft dda o faddeuant Duw.